# LEWIS, JOHN ('Eos Glyn Wyre '; 1836 - 1892), bardd a cherddor

**Enw:** John Lewis
**Ffugenw:** Eos Glyn Wyre
**Dyddiad geni:** 1836
**Dyddiad marw:** 1892
**Priod:** Jane Lewis (née Davies)
**Plentyn:** David Wyre Lewis
**Rhiant:** Margaret Lewis
**Rhiant:** Lewis Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Barddoniaeth
**Awdur:** David Wyre Lewis

Ganwyd 6 Ebrill 1836, mab Lewis Lewis a Margaret ei wraig, Hen D  Mawr, Llanrhystyd, Sir Aberteifi. Teiliwr oedd ei dad; yr oedd hefyd yn gerddor. Dilynwyd ef yn yr un grefft gan ddau o'r meibion, sef David Lewis, ' y Cerddor ' a John, sef ' Eos Glyn Wyre.' Codwyd y brawd arall, Evan, yn grydd.

Priododd John Lewis ferch Felinganol, o'r enw Jane Davies, ac aeth i fyw i'r lle hwnnw, a ganwyd iddynt saith o blant. Cyfansoddodd rai tonau a rhanganau. Ceir tôn o'i eiddo yng nghasgliad William Harries, Heolyfelin, 1896, yn dwyn yr enw ' Adgyfodiad.' Cyhoeddwyd rhangan o'i eiddo - y geiriau a'r gerddoriaeth yn *Golud yr Oes*. Ond fel bardd yr enwogodd ei hun. Cyfansoddodd lawer o bryddestau, caneuon, ac englynion, ac enillodd wobrwyon lawer. Bu farw 2 Tachwedd 1892 a chladdwyd ym mynwent eglwys Llanrhystyd. Trosglwyddodd ei blant ei lawysgrifau ef a rhai ei frawd David Lewis, gyda llawer o lyfrau printiedig, i'r Llyfrgell Genedlaethol yn 1929. Brawd iddo oedd David Lewis (1828 - 1908.

## Awdur

**Y Parchedig David Wyre Lewis**, (1872 - 1966)

## Ffynonellau

Archifau LlGC: NLW MS 8177-8277: Lewis, Llanrhystyd Manuscripts, ond yn arbennig 8189A, 8191A-8193A, 8200A, 8202A, 8225A, 8239A, 8252A, 8254A, 8261A, 8264C, 8272C-8277A

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733543

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu